**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/00062/20

Janet Finch – Saunders AM
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

15 Ionawr 2020

Annwyl Janet

**Deiseb P-05-939 Gosod embargo ar unwaith ar drwyddedau bridio cŵn newydd, ar adnewyddu trwyddedau ac ar geisiadau cynllunio nes bod y rheoliadau'n addas i'r diben a nes bod modd eu gorfodi.**

Diolch am eich e-bost dyddiedig 8 Ionawr ynghylch deiseb P-05-939.

Mae lles anifeiliaid a sicrhau bod anifeiliaid dan berchnogaeth gyfrifol yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gynnal safonau lles uchel ar gyfer holl anifeiliaid Cymru ar hyd eu hoes.

Roeddwn i eisoes wedi ymrwymo i adolygu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 ac wedi egluro fy safbwynt i o ran gwerth gwahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach drwy drydydd parti. Yn dilyn darllediad diweddar gan un o raglenni ymchwilio BBC Wales, rwy'n gwerthfawrogi bod angen gweithredu ar unwaith yn y maes hwn. Gan gadw hynny mewn cof,

- Derbyniais y cynnig o help gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a gofynnais am adolygiad i'w gynnal ar unwaith o'r rheoliadau bridio cŵn. Dechreuodd y gwaith ym mis Tachwedd ac mae newydd ddod i ben. Cafodd y swyddogion yr adroddiad ddydd Mawrth a bydd penderfyniad yn cael ei wneud o ran sut orau i fynd i'r afael â'r materion ar ôl ymgynghori'n llawn ar yr argymhellion.

- Mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cwrdd â Phrif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol i drafod y rhwystrau o ran gorfodi. Cynrychiolwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd. Cefais fy nghynghori y cafwyd cyfarfod cynhyrchiol iawn ac mae'r swyddogion yn ystyried y camau nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Gwnaeth y Prif Swyddog Milfeddygol gyfeirio'r rhaglen BBC ar unwaith at Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

- Lansiodd swyddogion ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol cyn y Nadolig i dargedu'r rheini a oedd yn bwriadu prynu cŵn bach gan dynnu sylw at y pwysigrwydd o'u prynu'n gyfrifol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a Gweinyddiaethau eraill i sicrhau ein bod yn cyflwyno newidiadau a fydd yn cael effaith hirdymor ar safonau lles cŵn a chathod sy'n cael eu bridio yng Nghymru.

Rhaid i unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i fesurau gorfodi fod yn gymesur a bod yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae bridio cŵn yn fusnes cyfreithlon ac mae'r rhan fwyaf o fridwyr yn bodloni'r safonau lles gofynnol. Mae tua 260 o fridwyr trwyddedig yng Nghymru ac ni fyddai'n briodol gweithredu moratoriwm a allai gosbi bridwyr cyfreithlon oherwydd gweithgarwch eraill.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs